CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 18ed EBRILL 2023.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng J Evans (Cadeirydd) D T Roberts (Is-Gadeirydd) Ms N Dafydd, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, Mrs L Roberts, R R Roberts.

Alan Southhall (Cynefin) Dylan a Ffion (Cadnant)
Mr Gareth Wiilliams aelod o`r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU:
Cyng G Jones. W R Parry.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.
Neb.

CAEL COFNODION 21ain MAWRTH 2023. YN RHAI CYWIR: Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng D T Roberts.

Ymgynghoriad Haulfryn, Bodffordd.
Cafwyd cyfarfod rhwng y Cyngor Cymdeithas, Cynefin a Cadnant.
Rhoddwyd cyflwyniad gan (Ffion o Cadnant) gyda`r Cynghorwyr yn cwestiynu am atebion.
Y pryder fwyaf gan y Cyngor ydyw`r fynedfa. a teimlad ei bod yn beryglus. Y Cyngor yn pwysleisio hyn yn gryf.
Bydd cyfle i`r Cyngor Cymdeithas basio barn eto pan ddaw y Cynllun i law yn y dyfodol agos.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Elusen William Bold.
Cafwyd ohebiaeth gan Mr Rees Roberts ysgrifennydd yr Elusen. Ond oherwydd ei fod yn hwyr yn dod i law, bydd yn cael ei rhoi ar Rhaglen mis Mai 2023.

Hysbysfordiadau.
Mae amcangyfrif llafar wedi dod ond y pris ddipyn yn uchel. Mae`r clerc wedi chwilio am fwy a mae diddordeb gan dri arall. Gofynnodd y Clerc os y buasai yn cael yr hawl i derbyn un o`r rhain os busai o gwmpas £200. Cynnig Cyng R G Parry eilio Cyng D T Roberts i`r Clerc weithredu mor fuan ag sydd bosib.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2021/124. Cais llawn ar gyfer dymchwel yr unedau moch presennol, newid defnydd tir i fod yn safle bythynod gwyliau, lleoli 25 o bwthyn gwyliau, addasiadau i fynedfeydd presennol i gerbydau, adeiladu ffyrdd preifat, adeiladu meysydd parcio, gosod cyfleuster trin carthffosiaeth, tirlunio meddal a chaled ynghyd a gwaith cysylltiedig ar dir yn:-
   Bodwina Bellaf, Tynlon.

Gwrthwynebiad fel a fu y tro diwethaf. (30/10/22.)
Cefnogi 2. Gwrthwynebu 6. Dim ateb 2.
Ni ofynwyd am gofnodi y bleidlais.

2. EXE/2023/2. Rhybudd eithriad trydan ar gyfer codi polyn ychwanegol ar llwybr troed yn:-
Cae`r Delyn, Bodffordd.
Dim gwrthwynebiad.
Cynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng J E Lewis.

PENDERFYNIADAU.

3. FPL/2023/21. Cais ol weithredol ar gyfer cadw swydda gartref ar wahan ynghyd a`r estyniad i`r cwrtil preswyl a`r gwaith cysylltiedig yn:-
Rhyd Cardog, Llandrygarn.
Caniatad. Y Cyngor yn derbyn.

4. FPL/2021/288. Cais llawn ar gyfer codi dau annedd preswyl ynghyd a chreu mynediad newydd ar dir yn:-
Maes Meillion, Bodffordd.
Caniatad. Y Cyngor yn derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

5. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
Y Cyngor yn derbyn datganiad arweinydd y Cyngor Sir yn cyflwyno rhybudd ar ol i Bont Borth orfod cau am rhesymau diogelwch, ac effaith sylweddol ar fusnesau a chymunedau a lefel o draffig. Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi na fydd cynlluniau am drydedd bont ar draws y Fenai.

6. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
Y Cyngor yn gefnogol o gaeau chwarae newydd ym Modedern.
£330.00 i ddatblygu dau gae aml-chwarae yn yr ysgol, bydd yn amnewid y caeau bob tywydd.
Mae buddsoddiad wedi ei wneud yn Canolfan Hamdden David Hughes, Parc Caergybi, Canolfan Hamdden Plas Arthur ac Amlwch.

7. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
Llongyfarchiadau mawr i Ian Williams a Caron Ynyr sydd edrych ymlaen i wneud bwydlen gyffrous o fwyd cartref ar ol ennill "Yr Academi Felys" i agor Caffi newydd yn Oriel Mon.
Gobeithi`r y bydd cefnogaeth.

8. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
Artist tirwedd enwog David Woodford RCA yn arddangos yn Oriel Mon.
65 mlynedd o ymrwymiad cadarn o`i gyfnod yn y "Royal Academy Schools" yn Llundain.

9. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
Trist iawn oedd fod 2 Sisters Llangefni yn cau Dydd Gwener 31ain Mawrth 2023. Mae cymorth ar gael i`r gweithwyr. (730 oedd yn cael ei cyflogi) Angen gwneud y gorau posibl o`r gefnogaeth sydd ar gael, cefnogaeth hefyd gan Aelod Seneddol Virginia Crosbie ac Aelod Cynulliad Rhun ap Iorwerth. Helpu cydweithio unrhyw un sydd allan o waith i ddod o hyd i gyfleoedd newydd.

10. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
Ymgynghoriad newydd ar ddyfodol addysg yn cychwyn 31ain Mawrth 2023.

Yn ceisio sicrhau Strategaeth Newydd:-
Ysgolion am y deg mlynedd ar hugain nesaf os yn addas.
Sicrhau cyfleoedd gorau i`r plant, safonnau a darpariaeth yn yr ysgolion. Adnoddau yn cael ei defnyddio effeithiol.
Wedi cwblhad pedwar prosiect hyd hyn:- Ysgol Rhyd y Llan, Llanfaethlu, Ysgol Cybi, Caergybi, Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch, Ysgol Corn Hir Newydd (Ebrill 23)
Ysgol y Graig, Llangefni y prosiect i ymestyn wedi`i cwblhau erbyn Medi 2023.

11. Cafwyd cadarnhad gan Mon E Williams Peiriannydd Golau Stryd Y Cyngor Sir fod diffygiad ar Goleudau Stryd ar hyd Minffordd, Bodffordd. Adnewyddu`r Cebl dechrau mis Ebrill 2023. Tyllau ar wyneb y ffordd ger Cae`r Delyn, manylion i`r peiriannydd ardal am sylw pellach.

12. Cadarnhad gan Aled Roberts Peiriannydd Ardal. Bydd y tyllau yn cael sylw yn Stad Cae`r Delyn, Bodffordd. Y Gang Gymunedol yn gwneud y gwaith (28 diwrnod)

GOHEBIAETH (ARALL)

13. Diolch am 20mya. Mwy o wybodaeth ond nid oes posib anfon unrhyw sylw pellach mae yn dod yn gyfraith ym mis Medi. Fel a ddalltwyd bydd y 30mya yn newid i 20mya, mewn pentrefi.

14. Cyng Sirol Dylan Rees.
Cwyn cyflymder tramwy yn Bodffordd, gan Bethan Morris. Wedi anfon i`r Adran Priffyrdd i ofyn iddynt drefnu cael Gan Bwyll ymweld a`r safle.
Clerc wedi anfon ebost Bethan Morris i`r Cyngor Sir.

15. Awdurdod Tan ac Achub (Cynghorydd Dylan Rees)
Datblygu Gwasanaeth Tan ac Achub ar gyfer y dyfodol. Gwahoddiad i gymryd rhan mewn grwp ffocws. Cyng D T Roberts am wneud ei orau i fynychu.

RHODDION.
16. Dim.

PLWYFOL.

17. Taliadau a Dwerbyniadau y Cyngor yn diweddu 31ain Mawrth 2023.
Cael ei chymeradwyo Cynnig Cyng Miss B Owen, eilio Cyng R G Parry.

18. Gwahoddiad i Mr A J Foulkes i wneud yr Awdit Mewnol 2022/23 eto eleni.
Cynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng J E Lewis.

MATERION ARIANNOL.
19. Cyfrif Rhedegol £10,820.22.

20. Mynwent Gymunedol £7,390.00.

TALIADAU:

21. Clerc £450.00. Trwsio pibell ddwr yn fynwent Gymunedol £25.00. Cyngor Sir. Les Cae Chwarae £25.00. Archwilio Cymru. Awdit Allanol £278.00.
Derbyn y taliadau a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng R R Roberts eilio Cyng Mrs L Roberts.

D Owen (Clerc)